# Polisi Lleihau Treth Cyngor o dan Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

**Cyngor Gwynedd**

## 1. Diben y Polisi

Mae'r polisi hwn yn nodi'r meini prawf a'r broses ar gyfer dyfarnu lleihad dewisol i Dreth Cyngor o dan Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Ei nod yw cynnig cymorth i drigolion sy'n wynebu caledi ariannol eithriadol neu amgylchiadau anarferol.

## 2. Cwmpas

Mae'r polisi'n berthnasol i:

- Unigolion sy'n profi caledi ariannol dros dro.
- Grwpiau bregus (e.e. pobl ifanc sy'n gadael gofal, dioddefwyr cam-drin domestig).
- Achosion lle mae'r atebolrwydd i dalu Treth Cyngor yn codi oherwydd digwyddiadau annisgwyl neu eithriadol.
- Unrhyw grwpiau eraill a ddiffinnir gan Gabinet y Cyngor er mwyn hwyluso gwireddu amcanion yr awdurdod.
- Achosion penodol ble ceir eithriad o'r Premiwm Treth Cyngor, ond nid Treth Cyngor sylfaenol, yn ychwanegol i'r eithriadau statudol sydd wedi eu hamlinellu mewn deddfwriaeth.

## 3. Cefndir

Mae Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, yn rhoi pwerau disgresiwn ychwanegol i'r Cyngor leihau swm y Dreth Gyngor sy'n daladwy ar gyfer unigolion, neu ar gyfer dosbarthiadau o drethdalwyr. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i leihau'r swm sy'n daladwy i ddim.

Mae hwn ar wahân ac yn wahanol i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, sydd wedi cymryd lle Budd-dal Treth Cyngor ers 2013. Mae'r Cyngor llawn yn penderfynu ar Gynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn flynyddol, fel arfer yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, ac yn unol â statud cyn 31 Ionawr.

Tra fod y Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn bodoli i roi cymorth i'r rhai sy'n atebol i dalu'r dreth, mae angen rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer y trigolion hynny sy'n cael eu hunain mewn amgylchiadau 'eithriadol' ac sydd angen cymorth tymor byr i fodloni eu rhwymedigaeth Treth Gyngor.

Mae'n bwysig diffinio'r hyn y gellid ei ystyried yn eithriadol ac yn yr achos hwn byddai'n sefyllfa nad oedd yn nodweddiadol, yn hollol anarferol a dim ond yn debygol o ddigwydd yn anaml iawn. Rhagwelir bod sefyllfaoedd eithriadol at ddibenion y cynllun hwn yn debygol o fod yn bethau y tu allan i reolaeth y trethdalwr, megis llifogydd i eiddo fel enghraifft.

Rhaid i Cyngor Gwynedd dalu cost lawn dyfarnu unrhyw ostyngiadau i Dreth Cyngor sylfaenol dan Adran 13A. Rhaid i'r Cyngor felly gydbwyso angen y talwyr cyngor unigol sydd angen cymorth yn erbyn buddiannau talwyr y dreth gyngor yn gyffredinol.

Bydd eithriad o'r Premiwm (yn rhannol neu'n llawn) yn arwain at lai o adnoddau yn cael eu casglu i wireddu pwrpas y Premiwm.

## 4. Meini Prawf Cymhwysedd

***Lleihau Treth Cyngor sylfaenol***

Rhaid i ymgeiswyr:

- Fod yn atebol am Dreth Cyngor ar eiddo o fewn ardal Cyngor Gwynedd.
- Wedi archwilio pob math arall o gymorth (e.e. Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, eithriadau, disgowntiau).
- Dangos tystiolaeth o galedi ariannol neu amgylchiadau eithriadol.
- Dangos nad yw'r sefyllfa'n ganlyniad i esgeulustod neu fethiant bwriadol i dalu.

***Lleihau neu ddileu Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi neu Eiddo Gwag Hirdymor***

- Mewn achosion lle gwneir cais am eithriad o'r Premiwm Treth Cyngor rhaid arddangos ymdrech i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd neu dystiolaeth i allu cynnal asesiad teg i benderfynu fod yr amgylchiadau yn wirioneddol eithriadol.

## 5. Egwyddorion Cyffredinol:

Rhaid cydnabod fod unrhyw benderfyniad i leihau neu dileu Treth Cyngor ar gyfer trethdalwr yn cael ei gyllido gan drethdalwyr eraill, felly mae rhaid ystyried pob cais yn nhermau budd i'r gymuned a threthdalwyr y Sir. Yn yr un modd, mae gostwng lefel y Premiwm yn arwain at lai adnoddau ar gael i ddiwallu ei fwriad.

- Rhaid ystyried pob cais yn unol â'r drefn yma, yn llawn a theg.
- Mae gofyn i'r sawl sydd yn ystyried cais fod yn wrthrychol.
- Dylid delio gyda cheisiadau yn amserol.
- Mae angen gosod a dilyn canllawiau clir a syml.
- Bydd y Polisi yma yn cael ei adolygu'r rheolaidd, gan ystyried unrhyw ganllawiau o Lywodraeth Cymru a threfniadau cynghorau cyfagos.
- Er fod pob cais yn cael ei ystyried yn unigol fe ddylid sicrhau cysondeb rhwng ceisiadau.

**6. Y Broses Ymgeisio**

Rhaid i geisiadau:

- Gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig gan y person atebol neu gynrychiolydd awdurdodedig.
- Cynnwys:
    - Y swm a'r cyfnod y gofynnir am ostyngiad.
    - Rhesymau dros y cais.
    - Tystiolaeth o incwm, gwariant, dyledion, a chamau lliniaru.
    - Lle gwneir cais am leihad yn y Premiwm yn unig, tystiolaeth sy'n dangos fod yr eithriad yn gymwys yn unol â'r Polisi yma.

**7. Gwneud Penderfyniadau**

Bydd pob cais yn cael ei asesu yn ôl ei haeddiant unigol. Bydd y Cyngor yn ystyried:

- Amgylchiadau ariannol yr ymgeisydd.
- Effaith peidio â dyfarnu'r gostyngiad.
- Cost i'r pwrs cyhoeddus.
- A yw'r ymgeisydd wedi cymryd camau rhesymol i ddatrys y sefyllfa.

Bydd y drefn o benderfynu fel a ganlyn:

- Rhaid i pob cais fod yn ysgrifenedig a nodi yn glir mai cais dan Rhan 13A a'r polisi yma sydd yn cael ei wneud.
- Gall cais ymwneud â blwyddyn ariannol, rhan o flwyddyn ariannol neu amrediad amser (hyd at 6 mlynedd) – mae rhaid nodi'r cyfnod perthnasol yn y cais.
- Mewn achosion lle nad yw'r penderfyniad i leihau'r dreth neu'r premiwm wedi ei wneud am gyfnod penodol, ni fydd unrhyw leihad yn ymestyn tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.
- Mae gofyn i bob ymgeisydd ddarparu manylion perthnasol llawn a chlir i alluogi'r sawl sydd yn asesu'r cais ddod i benderfyniad cywir, amserol ac yn unol a'r rheolau.
- Rhaid darparu amlinelliad llawn o gyllid a chynilon personol sydd yn gysylltiedig â'r cais.
- Dylid darparu crynodeb o gyllid personol yr unigolyn / aelwyd gan fanylu unrhyw ddyledion sylweddol eraill, asedau o faint (ariannol – cynilon / cynllun pensiwn, materol tai / ceir).

- Manylion unrhyw fregusrwydd – sydd yn berthnasol i'r trethdalwr neu rywun sydd yn ddibynnol ar y threthdalwr.
- Dylid sicrhau bod pob trywydd arall rhesymol a chyfreithlon wedi ei dilyn i leihau'r swm (gan gynnwys rhai trefniadau methdal) ac mai'r opsiwn olaf yw'r cais Rhan 13A.
- Fod camau rhesymol wedi ei rhoi mewn lle i atal cais tebyg yn y dyfodol (cais am eithriad, rhyddhad, disgownt statudol, trefniadau fforddiadwy wedi ei cymeradwyo gan gorff cymwysedig – CAB neu Money Helper)
- Ble fod trafferthion ariannol gan unigolyn / deulu bydd angen arddangos fod ymdrech wedi ei wneud i dderbyn cyngor gan un o'r cyrff enwir uchod.
- Croesawir ddatganiad o amgylchiadau perthnasol gan yr ymgeisydd neu gynrychiolwyr ar ei rhan.

**Os nad yw Cabinet y Cyngor wedi adnabod a diffinio carfan penodol o drethdalwyr neu eiddo sy'n gymwys i dderbyn lleihad mewn Treth Cyngor (neu Premiwm) yn unol â'r Polisi hwn (gweler Rhan 10 isod), bydd Panel sy'n cynnwys yr Aelod Cabinet Cyllid, Pennaeth Cyllid / Pennaeth Cyllid Cynorthwyol a'r Rheolwr Trethi yn ystyried ceisiadau unigol am ostyngiadau dan Adran 13A.**

Os bydd angen manylion pellach gall yr sawl sydd yn ystyried y cais ofyn drwy lythyr / e-bost am fanylion / tystiolaeth bellach.

**Hysbysu penderfyniadau**

Bydd y Cyngor yn anelu at ystyried y cais a hysbysu'r cwsmer o'r canlyniad o fewn 28 diwrnod o dderbyn yr hawliad a'r holl ddogfennau ategol.

Os bydd yr hawliad am ryddhad yn llwyddiannus, bydd y dyfarniad yn cael ei wneud yn uniongyrchol trwy ddisgownt a gymhwysir ar fil y Dreth Gyngor. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig a bydd penderfyniad y Cyngor yn cynnwys y canlynol:

- Y rheswm dros y dyfarniad
- Y swm a ddyfarnwyd
- Cyfnod y dyfarniad
- Dyletswydd yr ymgeisydd i roi gwybod am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau
- Unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r dyfarniad
- Manylion yr hawl i adolygu

Os bydd hawliad yn aflwyddiannus, bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig a bydd penderfyniad y Cyngor yn cynnwys esboniad o sut y cyrhaeddwyd y penderfyniad a manylion yr hawl i ofyn am adolygiad.

**Apelio yn erbyn penderfyniad**

Nid oes hawl statudol i apêl ond os yw trethdalwr yn credu fod annhegwch neu fod diffyg lle nad yw'r drefn mewnol wedi ei ddilyn gellir cyflwyno datganiad o anfodlonrwydd yn ysgrifenedig i sylw'r Pennaeth Cyllid.

Bydd canlyniad yr cais pellach yma yn cael ei gyfleu yn ysgrifenedig i'r ymgeisydd o fewn tri mis.

**8. Hyd a Chyfnod Adolygu**

- Gellir dyfarnu gostyngiadau am gyfnod penodol neu tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- Gellir ail-ymgeisio os yw'r amgylchiadau'n parhau.
- Mae penderfyniadau'n derfynol, ond gellir gofyn am adolygiad os cyflwynir tystiolaeth newydd.

**9. Cyllido**

Mae pob dyfarniad i ostwng Treth Cyngor sylfaenol o dan Adran 13A(1)(c) yn cael ei ariannu gan y Cyngor ac, yn y pen draw, gan drethdalwyr lleol. Bydd y Cyngor yn monitro'r gyllideb a neilltuwyd ar gyfer gostyngiadau dewisol.

Cost eithriad o'r Premiwm (yn rhannol neu'n llawn) yw colli cyfle i gasglu adnoddau tuag at ddibenion y Premiwm.

**10. Grwpiau Penodol**

Mae penderfyniadau blaenorol y Cabinet, yn caniatáu'r gostyngiadau canlynol yn unol ag Adran 13A:

- Cynllun 3e yn y Cynllun Gweithredu Tai sy'n ymestyn y cyfnod eithrio o dalu treth Cyngor ar dai gwag (prif neu unig gartref) gan roi blwyddyn ychwanegol i brynwyr tro cyntaf i gyflawni gwaith adfer hanfodol cyn y gellir meddiannu'r tŷ gan gynnwys achosion lle mae'r cyfnod eithriad wedi ei hawlio yn barod gan y cyn berchnogion.
- Caniatáu gostyngiad o 50% (25% i Ofalwr Maeth egwyl fer) ym miliau Treth Cyngor prif breswylfa gofalwyr maeth sy'n gofrestredig i'r Cyngor.

## 11. Premiwm Treth Cyngor

Mae’r rhan hwn o’r polisi yn amlinellu'r amgylchiadau a'r meini prawf lle gall perchennog eiddo wneud cais am eithriad i'r premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi.

Prif egwyddorion Cyngor Gwynedd ar gyfer codi a chasglu premiwm yw i annog perchnogion eiddo i wneud defnydd o dai fel prif neu unig gartref.

### 11.1 Diffiniadau

- Eiddo gwag tymor hir: Annedd heb breswylwyr ac heb ddodrefn am gyfnod parhaus o 12 mis neu fwy.

- Ail gartref: Annedd sydd wedi'i ddodrefnu'n sylweddol ond nad yw'n brif gartref i unrhyw un.

**11.2. Eithriadau Statudol a Lleol**

**11.2.1 Eithriadau Statudol i Eiddo Gwag ac Ail Gartrefi**

Mae Rheoliadau’r Dreth Cyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 yn nodi saith dosbarth o eiddo sydd wedi eu heithrio o’r premiwm (statudol).

<table>
<tr><th>Dosbarthiadau o Anheddau</th><th>Diffiniad</th><th>Y math o eiddo sy’n gymwys i’r eithriad rhag talu’r premiwm</th></tr>
<tr><td>Dosbarth 1</td><td>Eiddo sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn</td><td rowspan="4">Cartrefi Gwag Hir dymor ac Ail Gartrefi</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 2</td><td>Eiddo sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 3</td><td>Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o’r brif annedd</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 4</td><td>Eiddo fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 5</td><td>Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod.</td><td rowspan="3">Ail Gartrefi</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 6</td><td>Eiddo lle mae amod cynllunio:<br>a. yn atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o 28 o ddiwrnodau o leiaf mewn unrhyw gyfnod o un flwyddyn;<br>b. yn pennu na chaniateir defnyddio’r annedd ond ar gyfer llety gwyliau tymor byr; neu<br>c. yn atal meddiannaeth fel unig neu brif breswylfa person.</td></tr>
<tr><td>Dosbarth 7</td><td>Eiddo cysylltiedig â gwaith</td></tr>
</table>

**Meini prawf cymhwyso am yr eithriadau statudol:**

***Dosbarth 1 – Eiddo ar y farchnad i'w gwerthu***

- Rhaid i'r eiddo fod ar werth am bris rhesymol (pris cyfartalog a'r hyd mae anheddau tebyg ar y farchnad yn yr ardal leol; a oes amodau cyfyngol gormodol, megis y pris, wedi'u gosod ar yr eiddo er mwyn atal ei werthu).

- Rhaid darparu tystiolaeth o farchnata, e.e. Hysbyseb ar wefannau hysbysebu (fel Rightmove/Zoopla) neu ffyrdd eraill o farchnata; Cytundeb gyda gwerthwr tai; Tystysgrif Perfformiad Ynni;

Cyfnod eithrio: hyd at 12 mis

***Dosbarth 2 – Eiddo ar y farchnad i'w rentu***

- Rhaid i'r eiddo fod ar osod am bris rhent rhesymol (rhent cyfartalog ac amser ar y farchnad ar gyfer eiddo tebyg yn yr ardal leol; a oes amodau cyfyngol gormodol megis y rhent yn atal yr eiddo rhag cael ei rentu)
- Rhaid darparu tystiolaeth o farchnata, e.e. Rhif Cofrestru a thrwydded landlord (Rhentu Doeth Cymru); Cytundeb gyda asiant gosod; Tystysgrif diogelwch nwy

Cyfnod eithrio: hyd at 12 mis

***Dosbarth 3 – Rhandai***

- Rhandai sy'n rhan o'r brif annedd – dim tystiolaeth ychwanegol gofynnol.

Cyfnod eithrio – hyd newid mewn amgylchiadau.

***Dosbarth 4 – Lluoedd Arfog***

- Anheddau a fyddai'n unig gartref i rywun pe na bai'n byw mewn llety arfog.

- Rhaid darparu tystiolaeth o wasanaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Cyfnod eithrio – hyd newid mewn amgylchiadau'r unigolyn.

***Dosbarth 5 – safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod sydd wedi eu meddiannu***

***Dosbarth 6 - anheddau sy'n wag oherwydd bod amod cynllunio yn atal pobl rhag eu meddiannu'n barhaol neu gydol y flwyddyn, neu'n nodi bod yr eiddo i'w ddefnyddio yn llety gwyliau yn unig neu'n atal yr annedd rhag cael ei ddefnyddio yn brif breswylfa***

***Dosbarth 7 – anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi***

- ar gyfer person cymwys fel y'i nodir yn Rhan 1, Dosbarth 7 o'r canllawiau.

- gallai'r cyngor fod yn gwneud cais am fathau penodol o dystiolaeth ( er enghraifft cytundeb cyflogaeth, ffurflenni treth, datganiad tâl)

### 11.2.3 Eithriadau Lleol Ail Gartrefi yn unig

Nid "ail gartrefi" na "tai haf" yw'r terminoleg a ddefnyddir yn Adran 12B, ond "anheddau gyda preswylio o bryd i'w gilydd (*dwellings occupied periodically*)". Mae'r Ddeddf yn datgan mai'r amodau er mwyn i eiddo fod yn destun premiwm Treth Cyngor "ail gartref" yw, "***there is no resident of the dwelling, and the dwelling is substantially furnished***". Hynny yw, nad yw'r eiddo yma yn brif gartref i unrhyw un, ond mae wedi cael ei ddodrefnu. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i allu gwahaniaethu ar sail lle mae'r perchennog yn byw, neu os yw'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau gwyliau.

Yn hynny o beth, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai mewn sefyllfa i ganiatáu eithriadau dewisol rhag y Premiwm i garfan eang o eiddo heb danseilio'r rheswm dros gyflwyno'r Premiwm yn y lle cyntaf. (*Gall hyn arwain at angen ei ystyried dan ddarpariaethau Deddf Rheolaeth Cymhorthdal 2023)*.

Serch hynny, mae'r Cyngor yn ymwybodol fod newidiadau mewn deddfwriaeth yn rhywbeth sydd angen ei gadw dan sylw parhaus a oherwydd hynny bydd y Polisi hwn, o safbwynt caniatáu eithriadau lleol rhag y Premiwm ar ail gartrefi, hefyd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Yn unol ag Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae eiddo y bwriedir ei osod fel llety gwyliau hunan-ddarpar am o leiaf 252 diwrnod yn y flwyddyn nesaf, ac wedi ei wir osod am 182 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol, yn eiddo annomestig at bwrpasau trethiant a felly'n ymddangos ar y rhestr ardrethi annomestig yn hytrach na mewn band Treth Cyngor. Cynyddwyd y trothwy o osod yn sgil pwysau gan nifer o gyrff cyhoeddus, gyda Cyngor Gwynedd yn flaenllaw yn eu mysg.

Bydd angen i unrhyw gais am eithriad neu leihad o'r Premiwm hwn allu arddangos pam fod ei sefyllfa yn wirioneddol eithriadol, a fod gosod y Premiwm yn mynd yn groes i ganllawiau'r Llywodraeth ar osod y Premiwm. Ni fydd trosglwyddiad eiddo o'r rhestr ardrethi annomestig i fand Treth Cyngor ynddo'i hun yn ddigonol i achos fod yn eithriadol – bydd rhaid dangos beth sydd yn gwneud y sefyllfa benodol hwnnw yn unigryw.

Mae'r Polisi hwn yn caniatáu i swyddogion weithredu i roi eithriad dewisol o'r Premiwm lle mae'r trethdalwr yn Fenter Cymunedol cydnabyddedig sydd ag amcanion clir o gefnogi'r gymuned leol. Er mwyn cymhwyso bydd angen i'r Fenter rannu ei erthyglau / cyfansoddiad gyda'r Gwasanaeth Trethi er mwyn bodloni Cyngor Gwynedd fod y fenter yn cwrdd â'r amodau caeth yn y paragraff yma. Bydd dyfarniad ar y mater hwn yn cael ei wneud gan y Panel sy'n cynnwys yr Aelod Cabinet Cyllid, Pennaeth Cyllid / Pennaeth Cyllid Cynorthwyol a'r Rheolwr Trethi.

### 11.2.4 Eithriadau Lleol Eiddo Gwag yn unig

Eithriad Lleol Dosbarth A – Adnewyddu sylweddol i eiddo (2 Grŵp)

Grŵp 1 - I ddibenion cynllun 3e yn y Cynllun Gweithredu Tai mae'r eithriad hwn yn berthnasol i brynwyr tro cyntaf yn unig.

Caiff prynwyr tro cyntaf ei heithrio o dreth cyngor a premiwm am 12 mis; ar ôl diwedd cyfnod Eithriad Treth Cyngor Dosbarth A.

Grŵp 2 – Perchenogion sy'n ceisio mynediad i'w darpar prif neu unig gartref.

Caiff y perchenogion hyn hyd at 12 mis pellach o eithriad i'r premiwm yn unig; ar ôl diwedd cyfnod Eithriad Treth Cyngor Dosbarth A.

Meini prawf cymhwyso:

- Rhaid i'r perchennog newydd gyflwyno amserlen fanwl o waith a thystiolaeth o waith strwythurol (nid mân waith fel gosod cegin newydd)

Daw'r eithriad i ben pan:

- Mae'r gwaith wedi'i gwblhau
- Mae'r eiddo'n cael ei feddiannu
- Mae'r terfyn amser yn cyrraedd

## 12. Twyll

Bydd unrhyw gais dan Adran 13A sydd yn anonest, neu yn fwriadol anghyflawn yn cael ei ddehongli fel twyll, gyda ffeil yn cael ei darparu a'i throsglwyddo i Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd gydag ystyriaeth os oes sail i erlyniad.

Fe fydd datganiad o onestrwydd yn rhan o bob cais dan Rhan 13A.

Petai achos o dwyll ac fod swm wedi ei ddileu / ostwng fe fydd yr weithred yma yn cael ei wrthdroi gyda'r swm yn dod yn ôl yn daladwy.